

## Tasg 1

# Lluniau'r Nadolig (3)

1. Edrychwch ar y ddau lun a gwnewch nodiadau ynglŷn â'r hyn rydych chi'n ei weld ynddyn nhw.

2. **Gwaith pâr:**

Partner A: Disgrifiwch un o'r lluniau'n fanwl i'ch partner chi.

Partner B: Gwrandewch yn ofalus i weld ydy'ch partner chi'n anghofio cyfeirio at rywbeth yn y llun. Os ydyw, dywedwch wrtho / wrthi.

Gwnewch hyn eto, ond y tro yma, newidiwch rolau a defnyddiwch y llun arall.

3. Atebwch y cwestiynau hyn. Cofiwch roi rhesymau da bob tro.

### Llun 1

- a. Pwy ydy'r bobl yn y llun, tybed?
- b. Beth maen nhw'n ei wneud?
- c. Ble yn union maen nhw, tybed?
- ch. Sut maen nhw'n teimlo, tybed?

### Llun 2

- d. Pwy ydy'r bobl yn y llun, tybed?
- dd. Beth maen nhw'n ei wneud?
- e. Beth sydd wedi digwydd, yn eich barn chi?
- f. Sut mae'r bobl yn teimlo, tybed?

### Llun 1 a 2

- ff. Ceisiwch ddyfalu ym mha ran o'r byd mae'r lluniau wedi eu tynnu.
- g. Mae'r ddau lun wedi eu tynnu adeg y Nadolig. Maen nhw'n dangos dwy ochr i'r Nadolig. Pa ddwy ochr?

4. Mae Llun 1 yn dangos pobl yn dathlu.  
Sut mae pobl yn eich ardal chi'n dathlu'r Nadolig fel arfer?  
Beth fyddwch chi'n ei wneud dros y Nadolig fel arfer?  
Trafodwch hyn mewn grŵp.

5. Chwiliwch am wybodaeth i weld sut mae pobl mewn rhan arall  
o'r byd yn dathlu'r Nadolig.  
Gwnewch nodiadau.

Cyflwynwch y wybodaeth i'r grŵp.  
Ysgrifennwch ddarn "Dathlu'r Nadolig ar draws y byd" i'w roi  
mewn arddangosfa arbennig. Cofiwch gynnwys lluniau a  
mapiau.

